*CYNGOR TREF Y BALA* *BALA TOWN COUNCIL*

**Swyddfa'r Cyngor, Canolfan Henblas, 22-24 Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE**

**Ffôn:Tel: 07896964120** **cyngorybala@outlook.com**

**Maer / Mayor: O Rhys Evans**

# Adroddiad Y Maer 2022-23

Cynhelir cyfarfodydd Cyngor Tref Y Bala yn Siambr Tom Ellis, Canolfan Henblas, ac ar Zoom ar nos Iau cyntaf y mis (ond nid yn Awst) am 7.00pm. Rhoddir hysbysiad o bob cyfarfod ar yr Hysbysfwrdd ar wal Canolfan Henblas ac ar y wefan .www.cynghoraupenllyncouncils.co.uk (Y Bala).

**Cynghorwyr**

Mae 12 Cynghorydd Tref yn cynrychioli ward Cyngor Tref Y Bala:

Y Maer Rhys Evans, Y Dirprwy Faer Eifion Roberts, Jacqueline Allen, Dilys Evans, Fiona Hopkins, Eluned Jones, Sion McGuinness, Clare Mackintosh, Moira Mai, Tony Parry, Eric Williams, John C Williams

**Cyngor Gwynedd:** Y Bala yw'r ward ar gyfer Cyngor Gwynedd: Y Cynghorydd Dilwyn Morgan

**Clerc:** Lis Puw, cyngorybala@outlook.com 07896964120

**Ariannol 2022-23**

| | |
|---|---|
| Incwm yn y flwyddyn: | £28,000 |
| Gwariant yn y Flwyddyn: | £31,000 |

**Cynllun Hyfforddi:** Mae'r Cynllun Hyfforddi 2022-27 wedi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

**Archwilio:** Adroddiad yr Archwilydd Mewnol - ar y wefan

Adroddiad yr Archwilydd Allanol - aros am eglurhad pellach

**Amcanion ar gyfer y flwyddyn 2022-23:**

Dechreuodd tymor 2022-23 gyda chyngor newydd yn dilyn etholiadau lleol i'r dref. Dyma'r etholiadau cyntaf ar gyfer y cyngor tref ers sawl blwyddyn, ac yn yr hir-dymor credaf i hyn fod yn llesol i godi ymwybyddiaeth o waith y Cyngor yn lleol. Roedd y nifer o drigolion a bleidleisiodd yn galonogol iawn, ac yn brawf o bwysigrwydd y Cyngor yn lleol. Ac felly, dechreuwyd y tymor gyda 6 cyn-gynghorydd yn cael eu ail-ethol, a 6 cynghorydd newydd yn camu i'r siambr am y tro cyntaf.

Gyda dechreuad newydd, aeth ati i gytuno ar amcanion newydd am y tymor. Roedd yr amcanion o dymhorau blaenorol y cyngor yn parhau yn ddilys, sef:

- Cyd-weithio gyda chynllun Ardal Ni;
- Cynllun Ardal Treftadaeth Y Bala;
- Datblygiad Cronfa Ddŵr Llyn Tegid;
- Datblygiad cwmni rheilffordd Llyn Tegid;
- Annog digwyddiadau a chystadlaethau i dref y Bala.

Yn ystod y flwyddyn, yr ydym wedi parhau gyda'r uchod, gyda datblygiad cronfa ddŵr y Bala wedi cwblhau. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda, ac yn gefnogol o ddatblygiadau cynlluniau Ardal ni, ac Ardal treftadaeth y Bala, sydd yn cael eu harwain gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol, a Chyngor Gwynedd. Yr ydym yn cydweithio, ac yn annog digwyddiadau a chystadlaethau i'r dref, gan ein bod yn cydnabod gwerth economaidd y digwyddiadau hyn. Yn 2023 byddwn yn croesawu'r "Plains Rally" yn nol i'r dref, yn gwesteio treiathlon, yn gartref i Eisteddfod Powys, ac yn gefnogol o holl weithgareddau a pherfformiadau a gynhelir yn y theatr.

Yn ychwanegol i'r amcanion uchod, yn ystod y flwyddyn dydd i ddod, cytunwyd i weithio i wneud y Bala yn dref anabl gyfeillgar. Cytunwyd ar hyn yn dilyn pryderon gan gynghorwyr a phreswylwyr lleol nad oed y dref yn benthyg ei hun i fod yn gyfeillgar tuag at ddefnyddwyr llai abl. Byddwn yn cyd-weithio ac yn annog yr awdurdodau perthnasol i wneud newidiadau ac addasiadau i is-adeiledd y dref.

Yn dilyn awdit bioamrywiaeth, sylweddolwyd bod gan y dref botensial mawr i annog llawr mwy o fioamrywiaeth lleol, ac yn ystod y tymor, byddwn yn mynd ati i ddarbwyllo perchnogion tiroedd i fabwysiadu dull newydd o reoli eu tiroedd gan blannu ychydig o goed, blodau gwyllt ayyb, ble bo'r modd.

Yn ddiweddar daeth cadarnhad gan Dwr Cymru y byddant yn buddsoddi £8m i uwchraddio system garthffosiaeth y dref. Byddwn fel Cyngor yn cefnogi'r datblygiad yma, yn ogystal a rhoi pwysau ar yr cwmni i weithredu i ddatrys y broblem o ffosffadau sydd yn yr afon Ddyfrdwy, sydd ar hyn o bryd yn dal unrhyw ddatblygiad economaidd yn nol.

**Bwriadau ar gyfer y flwyddyn i ddod:**

Wrth i gyfnod y Maer ddirwyn i ben, fy ngobaith yw y gall y Cyngor Tref barhau i gyd-weithio yn adeiladol gyda'r awdurdodau lleol, i ddatblygu a gweithredu nifer o brosiectau a fydd o fudd cymdeithasol ac i economi'r dref.

Gyda chyllideb mor fychan, dim staff, a gyda'r cynghorwyr yn gwneud gwaith gwirfoddol, mae rhaid i amcanion y Cyngor fod yn realistig, a chredaf y gall y Cyngor Tref lwyddo gyda'r amcanion hyn yn ystod y flwyddyn 2023 – 24.

Er hyn, bydd 2024 yn flwyddyn bwysig i'r Bala – blwyddyn sydd yn nodi 700 mlynedd ers llunio siarter y dref, ac mae disgwyliad i hyn godi cynnwrf, brwdfrydedd a phroffil y dref. Bydd y Cyngor, a gwaith y Cyngor yn ganolbwynt i unrhyw drefniadau a gweithgaredd a gynhelir.

**Ymgysylltu gyda'r Gymuned:** Mae'r Cynghorwyr yn adnabod eu hardal yn drwyadl ac mae hynny wedi bod o fudd yn ystod y cyfnod Covid. Un o swyddi pwysicaf cynghorwr yw bod yn llais i boblogaeth y dref ac i adrodd yn nol yr hyn a drafodwyd ac a gytunwyd mewn cyfarfodydd Cyngor. Mae holl gyfarfodydd y cyngor hefyd yn agored i aelodau'r cyhoedd i fynychu, ac mae agenda a chofnodion holl gyfarfodydd y cyngor ar gael ar ein gwefan, ar hysbysfwrdd y tu allan i adeilad yr Henblas, ac ar ofyn (trwy'r clerc) os bydd angen. Colled fawr yn ardal Penllyn yn ddiweddar oedd colli'r papur bro wythnosol - "Y Cyfnod". Pan oedd yn cylchredeg, yna roedd holl nodiadau cyfarfodydd yn cael eu hargraffu yn y papur. Trwy lais y Cynghorwyr a gwaith y Clerc, mae'r cyngor yn cyd-fynd a disgwyliadau Un Llais Cymru a Llywodraeth Cymru trwy sicrhau fod holl drafodaethau'r Cyngor ar gael i un rhywun weld. Er hyn, dwi'n siŵr bod yma le i wella, ac mae darn o waith yn cael ei wneud i ymchwilio i mewn i sut y gallwn ymgysylltu gyda'r cyhoedd yn well.

**Asedau:**

2 Lloches Bws
6 x mainc( CG ac CNC)
13 Mainc
3 x Hysbysfwrdd
Polyn Signal
2 x Polyn Fflag
Cadwen y Maer
Goleuadau Nadolig
20 x plât anrheg
Baneri
Cwpwrdd Hysbysu
Shredder (rhanu efo Llanuwchllyn)
1 Asus Laptop, llygoden, cof bach

**Cynllun Bioamrywiaeth:** Mae'r Cynllun Bioamrywiaeth 2022-2025 wedi ei gyhoeddi ar y wefan.

Gan nad yw Cyngor Tref y Bala yn berchen ar unrhyw dir, nid yw'r angen o greu cynllun bioamrywiaeth wedi codi mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r Cyngor Tref yn ymddiried, ac yn meddu ar berthynas weithiol dda iawn gydag awdurdodau sydd a phrofiad a gwybodaeth am fioamrywiaeth, megis Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru, ac felly yn naturiol, wedi troi atynt am farn a gwybodaeth pan fo'r angen. Er hyn, mae yma yn y Bala niferoedd o ardaloedd a all annog bioamrywiaeth, a gyda ffocws gwleidyddiaeth ryngwladol yn troi at dorri allyriadau carbon, mae'r Cyngor wedi sefydlu Is-bwyllgor Bioamrywiaeth i gynllunio, monitro ac asesu be all y dref ei wneud i annog bioamrywiaeth. Mae'r Cynllun Bioamrywiaeth wedi ei anfon at Lywodraeth Cymru ac i'w weld ar y wefan.

**Yn y flwyddyn nesaf:**

Braint yw cael bod yn gynghorydd, ac i fod yn llais dros drigolion y dref. Braint anrhydeddus iawn oedd cael fy ethol yn Faer ar dref mor arbennig ar Bala, a fy ngobaith yw fy mod wedi gwneud teilyngdod a'r swydd. Gai ddymuno yn dda iawn i bwy bynnag fydd Maer nesaf y Bala.

Rhys Evans